2009-10

Mehefin 2010

Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru | Cyf: 278A2010

# Llythyr Archwilio Blynyddol Interim 2009-10 i gyrff rhagflaenol

# **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 5 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol, ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009, ond roedd angen addasu cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn sylweddol o ran asedau sefydlog** | 8 |
| Paratowyd cyfrifon chwe mis y cyrff rhagflaenol yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond addaswyd y farn archwilio yn sgîl materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a bywyd asedau a dibrisiant. | 8 |
| Dengys sefyllfa ariannol y gymuned iechyd adeg ei diddymu, a'r hyn a ragwelwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn, fod risgiau ariannol sylweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy yn ystod 2010 a thu hwnt | 11 |
| Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben, ond nodwyd materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a chyfrifyddu cyfalaf | 12 |
| **Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnoddau'n effeithiol** | 13 |
| Nid oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ond roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd | 13 |
| Mewn gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben, amlygwyd nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy | 13 |
| **Rheolwyd y rhaglen bontio yng nghymuned iechyd Caerdydd a'r Fro yn dda ar y cyfan** | 14 |
| Rhoddwyd y ffrydiau gwaith gofynnol ar waith i sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar ffurf gysgodol yn gyntaf ac yna ar ffurf gwbl weithredol | 14 |
| Cafodd amcanion a chanlyniadau prosiect clir eu nodi a'u cyflawni | 15 |

## Atodiadau


| | |
|---|---|
| Casgliadau ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 16 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 17 |
| Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009 | 18 |
| Adroddiadau archwilio perfformiad | 19 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol interim hwn i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ymwneud â'm harchwiliadau terfynol o'i gyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2009.
   Nodwyd y gwaith y sonnir amdano yn y llythyr yn y strategaethau archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliadau canlynol:
   - Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
   - Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd
   - Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg
2. Mae'r Llythyr hwn yn hysbysu aelodau'r Bwrdd o unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'r archwiliadau hynny, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
3. Wynebodd rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd newidiadau a heriau sylweddol yn eu chwe mis olaf. Yn bennaf, roedd angen paratoi ar gyfer y rhaglen ddiwygio yn GIG Cymru, a arweiniodd at eu diddymu, a sefydlu Bwrdd Iechyd newydd ar 1 Hydref 2009.
4. Canolbwyntiodd fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn ar archwilio datganiadau ariannol ac adroddiadau etifeddiaeth y cyrff sy'n dirwyn i ben a rhoi casgliad ar b'un a oedd gan y cyrff drefniadau priodol ar waith yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Roedd hefyd yn cynnwys gwaith a oedd yn archwilio'r trefniadau pontio ar gyfer sefydlu Bwrdd Iechyd newydd fel rhan o raglen ddiwygio'r GIG. Roedd y gwaith yn seiliedig ar elfennau allweddol o'm cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod)[1].
5. Nod y trefniadau pontio oedd rheoli'r risgiau o ran parhad busnes ac adnoddau ariannol a dynol a'r risgiau eraill niferus sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ddiwygio. Dangosodd fy ngwaith fod rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd wedi cyfrannu'n effeithiol at y trefniadau hyn yng nghymuned iechyd Caerdydd a'r Fro.
   Roedd y trefniadau pontio hefyd yn cwmpasu cyfnod cyfrifyddu'r broses ddiddymu a chyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.
6. Nodwyd y ffioedd archwilio ar gyfer y gwaith yn ystod y cyfnod hwn yn y strategaethau archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer pob corff rhagflaenol.

[1] Gwnaf sawl cyfeiriad yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyflwynwyd gennyf, gan gynnwys y Cod Ymarfer Archwilio. Roedd hyn yn berthnasol i'r cyfnod archwilio cyfan ac mae'n cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

7. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf i'r sefydliadau a ddiddymwyd a'r Bwrdd Iechyd newydd. Trafodwyd yr adroddiadau hyn gan archwilwyr, a chytunwyd arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r pwyllgorau archwilio perthnasol. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 3.

8. Ar sail fy ngwaith archwilio ariannol deuthum i'r casgliad bod adnoddau'r cyrff rhagflaenol, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009, ond roedd angen addasu cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn sylweddol o ran asedau sefydlog:

- paratowyd cyfrifon chwe mis y cyrff rhagflaenol yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond addaswyd y farn archwilio yn sgîl materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a bywyd asedau a dibrisiant;
- dengys sefyllfa ariannol y gymuned iechyd adeg ei diddymu, a'r hyn a ragwelwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn, bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy yn ystod 2010 a thu hwnt;
- roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben, ond nodwyd materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a chyfrifyddu cyfalaf.

9. Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnoddau'n effeithiol:

- nid oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ond roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd;
- mewn gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben, amlygwyd nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy.

10. Dangosodd y gwaith a gynhaliwyd gennyf mewn ymateb i ad-drefnu'r GIG i'r rhaglen bontio yn y gymuned iechyd gael ei rheoli'n dda ar y cyfan ac nid oedd unrhyw faterion sylweddol i'w nodi:

- rhoddwyd y ffrydiau gwaith gofynnol ar waith i sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar ffurf gysgodol yn gyntaf ac yna ar ffurf gwbl weithredol;
- cafodd amcanion a chanlyniadau prosiect clir eu nodi a'u cyflawni.

11. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried canfyddiadau fy ngwaith perfformiad y cyfeirir ato uchod. Bydd yr adroddiad etifeddiaeth sy'n dwyn ynghyd brif ganfyddiadau gwaith archwilio allanol diweddar ym mhob un o'r cyrff sy'n dirwyn i ben yn helpu yn hyn o beth.

12. Trafodwyd y Llythyr hwn â'r Prif Weithredwr a chytunwyd arno, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd.

13. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Bwrdd Iechyd ei hun. Rwyf yn ddiolchgar i'ch rhagflaenwyr a'u staff am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.



John Herniman

Partner Ymgysylltu
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 15 Mehefin 2010

## Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol, ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009, ond roedd angen addasu cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn sylweddol o ran asedau sefydlog

14. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol o roi cyfrif am y modd y mae cyrff yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddynt a'u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

15. Fel yr archwilydd allanol i'r cyrff rhagflaenol, mae'n ofynnol i mi archwilio datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiad archwilydd. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael sicrwydd bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

16. Mae fy ngwaith archwilio ariannol yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:
    - Datganiadau ariannol (neu gyfrifon)
    - Cyflwr ariannol
    - Rheoli ariannol
    - Systemau ariannol

### Paratowyd cyfrifon chwe mis y cyrff rhagflaenol yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond addaswyd y farn archwilio yn sgîl materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a bywyd asedau a dibrisiant

17. Eleni bu'n ofynnol i'r cyrff rhagflaenol yn y gymuned iechyd gyflwyno eu cyfrifon chwe mis heb eu harchwilio i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 7 Rhagfyr 2009 (roedd hwn yn estyniad o wythnos i'r dyddiad cau cychwynnol y cytunwyd arno). Yn erbyn y targed hwn, cyflwynodd y cyrff eu cyfrifon ar 4 Rhagfyr 2009 ac roedd y cyfrifon wedi'u hategu gan bapurau gwaith ac atodlenni o safon dda. O ganlyniad, cyflwynwyd cyfrifon archwiliedig y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i Lywodraeth y Cynulliad erbyn y dyddiad gofynnol, sef 1 Mawrth 2010. Roedd hwn yn gyflawniad arbennig o ystyried y gwaith ychwanegol gofynnol i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a pharatoi ar gyfer y gwaith o ad-drefnu'r GIG.

18. Gohiriwyd y gwaith o gwblhau cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn sgîl materion a gododd o ran ymestyn y fenter bywydau asedau. Arweiniodd y fenter at arbedion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, a rhai parhaol, o ran dibrisiant (£4.5 miliwn yn 2008-09) ac roedd ar waith mewn BILlau eraill yng Nghymru hefyd. Bellach, mae Trysorlys EM wedi barnu nad yw'r dull o ymestyn bywydau asedau yn

cydymffurfio â safonau cyfrifyddu fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi na ddylid defnyddio'r dull. Felly, roedd angen gwrthdroi'r cofnodion cyfrifyddu a oedd yn deillio o'r fenter a gymhwyswyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2008-09 ac a barhaodd yn 2009-10.

19. Arweiniodd yr angen i ddiwygio'r cyfrifon at oedi cyn cwblhau ac ardystio'r cyfrifon. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r oedi ac roedd yn rhan o'r broses o ddatrys y mater.

20. Roedd yr addasiadau gofynnol yn cynnwys dibrisio yn ystod y flwyddyn, balansau asedau ac ailddatgan cymaryddion blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i hyn. Er i addasiadau yn ystod y flwyddyn gael eu gwneud, gwrthododd y Bwrdd Iechyd addasu cymaryddion y flwyddyn flaenorol (2008-09) ond ychwanegwyd nodyn cynhwysfawr ynglŷn â'r effaith ar gyfrifon 2009-10. Adolygais yr effaith o beidio ag addasu cyfrifon 2009-10 a deuthum i'r casgliad nad oedd yr effaith yn berthnasol i'm barn, ond ei bod yn gofyn am gynnwys nodyn Pwysleisio Mater er mwyn tynnu sylw i'r mater.

21. Mae'n ofynnol i mi o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r ‘rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu’ (y Pwyllgor Archwilio) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.

22. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu mewn perthynas â'r Archwiliad Ariannol y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Chwefror 2010 cyn cyflwyno'r cyfrifon i'r Bwrdd. Cymeradwywyd cyfrifon BILlau gan y Bwrdd ac fe'u llofnodwyd gan y Swyddog Atebol ar 25 Chwefror 2010. Ar ôl datrys y mater o ran ailbennu bywyd asedau, cyflwynwyd adroddiad ynglŷn â'r effaith ar y cyfrifon a'm barn i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Ebrill 2010. Ceir manylion pellach yn Arddangosyn 1 sy'n nodi'r materion allweddol o adroddiadau ISA 260 fel y'u cyflwynwyd ar 25 Chwefror 2010 ac fel y'u diweddarwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Ebrill 2010.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | **BILl Caerdydd a BILl Bro Morgannwg**<br>Gwneuthum addasu fy marn ar gyfrifon y ddau BILl i gynnwys Nodyn Pwysleisio Mater i dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau hawliadau gofal iechyd parhaus a oedd wedi'u derbyn ond heb eu hasesu eto.<br>**Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro**<br>Addaswyd fy marn i gynnwys Nodyn Pwysleisio Mater i dynnu sylw at y ffaith nad addaswyd cymaryddion agoriadol ar ôl gwrthdroi'r cofnodion cyfrifyddu a oedd yn ymwneud â'r fenter ailbennu bywyd asedau. |

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas addaswyd | **BILl Caerdydd**<br>Ni wnaed unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd.<br>**BILl Bro Morgannwg**<br>Fel y cytunwyd â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, nid addaswyd y cyfrifon am y canlynol:<br>• nid oedd croniad tâl gwyliau wedi'i gyfrifo, ond ystyrir nad yw'r gwerth yn berthnasol;<br>• mae costau o ran gwasanaeth GMS gwell ar gyfer ffliw wedi'u gorddatgan o £84,000, ond nid camddatganiad perthnasol mo hwn.<br>**Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**<br>Nodwyd dau fater yn wreiddiol a gafodd eu datrys ar ôl hynny:<br>• addasiad ar gyfer darpariaeth nodyn credyd gan Lywodraeth y Cynulliad;<br>• effaith yr adolygiad o fywydau asedau.<br>Ar ôl datrys y ddau fater, addaswyd y cyfrifon ond roedd camddatganiad nas addaswyd yn parhau o ran cymaryddion agoriadol, yr oedd angen i'r Pwyllgor Archwilio eu cymeradwyo ar 29 Ebrill. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | **Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**<br>Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol gennyf a fyddai'n effeithio ar fy marn, ond nododd Archwilwyr Mewnol rai gwendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu yn eu cylch. Yn ogystal, byddai angen ystyried effaith ailbennu bywyd asedau ar gyfrifyddu cyfalaf ymhellach.<br>**BILl Caerdydd a BILl Bro Morgannwg**<br>Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau i reoli hawliadau gofal iechyd parhaus yn y ddau BILl. Mae hyn yn cynnwys gwella gweithdrefnau asesu hawliadau a defnyddio mwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o hawliadau. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | **Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**<br>Wynebodd yr Ymddiriedolaeth anawsterau sylweddol o ran llif arian parod yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi 2009, ac mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn gwaethygu. |

23. Yn dilyn adolygiad o'r cyfrifon gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Chwefror 2010, rhoddais fy marn ar gyfrifon y BILIau ar 12 Mawrth 2010 a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r amserlen ofynnol. Yng nghyfrifon y ddau BILI, gwneuthum gynnwys Nodyn Pwysleisio Mater gyda'm hadroddiad archwilio. Roedd yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau hawliadau gofal iechyd parhaus a oedd wedi'u derbyn ond heb eu hasesu eto. Cymeradwywyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar ôl hynny, o dan bwerau dirprwyedig ar 29 Ebrill 2010. Rhoddais fy marn, gan gynnwys y nodyn Pwysleisio Mater, ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar 4 Mai 2010 a'u gosod ar 5 Mai 2010.

## Dengys sefyllfa ariannol y gymuned iechyd adeg ei diddymu, a'r hyn a ragwelwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn, bod risgiau ariannol sylweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy yn ystod 2010 a thu hwnt

24. Newidwyd sefyllfa'r Ymddiriedolaeth fel y'i cofnodwyd yn ei chyfrifon hanner blwyddyn i ddiffyg o £1.753 miliwn o ganlyniad i'r addasiadau cyfrif o ran ailbennu bywyd asedau ac arian Llywodraeth y Cynulliad.

25. Nid yw cyfrifon y BILI yn datgelu perfformiad ariannol gan fod y terfyn adnoddau yn darged blynyddol, ac mae'r cyfrifon chwe mis yn cyflwyno datganiad o wariant yr aed iddo hyd yma. O ran yr Ymddiriedolaeth, er bod datgeliad o berfformiad ariannol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu, ni osodwyd dyletswydd statudol arni i fantoli'r gyllideb.

26. O ran cadarnhau sefyllfa'r gymuned iechyd, nododd y Bwrdd Iechyd sefyllfa chwe mis i Lywodraeth y Cynulliad a ddangosodd ddiffyg cyfunol o £9.977 miliwn.

**Arddangosyn 3: Sefyllfa ariannol y gymuned iechyd ym mis chwech**

| Corff rhagflaenol | Diffyg ariannol £ miliwn |
|---|---|
| BILI Caerdydd | £0.974 |
| BILI Bro Morgannwg | £1.083 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro | £7.920 |
| **Cyfanswm** | **£9.977** |

27. Aeth y Cyfarwyddwr Cyllid ati yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio i gysoni'r diffyg yng nghyfrifon blynyddol yr Ymddiriedolaeth â'r diffyg ar y ffurflen fonitro.

28. Wrth fynd ymlaen, nododd y Bwrdd Iechyd sefyllfa Mis 11 2009-10 i Lywodraeth y Cynulliad a ddangosodd ddiffyg o £7.451 miliwn, a diffyg rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn o £4.406 miliwn. Gwelwyd symudiad sylweddol yn y sefyllfa ym Mis 12 pan nododd y Bwrdd Iechyd warged o £0.075 miliwn. Priodolwyd y symudiad hwn i gyfuniad o arian ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad a'r ffaith bod cynlluniau arbedion wedi'u cyflawni. Yn ogystal, nododd y Bwrdd Iechyd danwariant bach o £0.061 miliwn yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf.

29. O ran 2010-11, mae Cynllun Ariannol Interim y Bwrdd Iechyd yn nodi ei fod yn wynebu agenda heriol tu hwnt, ac er mwyn cyflawni'r holl flaenoriaethau cenedlaethol byddai angen arbed cyfanswm o £87.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £74.6 miliwn o ymrwymiadau na ellir eu hosgoi i raddau helaeth (e.e. chwyddiant a phwysau o ran cost), a £12.9 miliwn o ddatblygiadau lleol (e.e. blaenoriaethau Cynlluniau Cyflenwi Lleol).

30. Er mwyn mynd i'r afael â'r gofyniad o ran arbedion, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau sy'n seiliedig ar y ffaith bod themâu lleol yn gyfrifoldeb unigolion, Cyfarwyddwyr Adrannol a Chyfarwyddwyr Gweithredol, ac ystod eang o themâu a reolir yn gorfforaethol a arweinir ar y cyd gan Swyddogion Gweithredol penodedig a Chyfarwyddwyr Adrannol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Rhaglenni hefyd, o dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, sy'n goruchwylio cynnydd a'r gwaith o gyflawni arbedion.

31. Hyd yma mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi rhaglen arbedion o £75 miliwn yn seiliedig ar £20 miliwn o dargedau lleol ynghyd ag arbedion corfforaethol o £55 miliwn. Mae gwaith pellach yn cael ei gyflawni i flaenoriaethu anghenion y gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â'r gwelliannau effeithlonrwydd gofynnol.

32. Mae'n glir o'r rhagamcanion uchod, er gwaethaf mantoli'r cyfrifon yn 2009-10, bod angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â materion ariannol sylweddol yn 2010 a thu hwnt. Byddaf yn monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd (a chyrff iechyd eraill yng Nghymru) fel rhan o'm rhaglen waith ar gyfer 2010-11.

## Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben, ond nodwyd materion o ran hawliadau gofal iechyd parhaus a chyfrifyddu cyfalaf

33. Mae fy adolygiad o systemau ariannol y cyrff wedi cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a, lle bo angen, profi'r rheolaethau mewnol.

34. Deuthum i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig pob un o'r cyrff a ddiddymwyd i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol.

35. Nodir y materion manwl sy'n codi o'm harchwiliad mewn adroddiad cyfrifon ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Ebrill 2010. Mae'r materion allweddol sy'n codi, fel y nodir hefyd yn fy adroddiadau ISA 260, yn ymwneud â'r canlynol:

- yr angen i atgyfnerthu trefniadau i reoli hawliadau gofal iechyd parhaus;
- yr angen i wrthdroi cofnodion cyfrifyddu sy'n ymwneud â'r adolygiad o'r fenter bywydau asedau (nodir manylion pellach am hyn uchod).

# Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

## Er nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd

36. Wrth archwilio cyfrifon y cyrff rhagflaenol, mae'n ofynnol i mi o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun eu bod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghyfrifoldebau a'm casgliad ffurfiol ar drefniadau'r cyrff ar gyfer y cyfnod o chwe mis yn Atodiad 1.

37. At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau pob corff yn erbyn nifer o gwestiynau a nodir yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

38. Yn dilyn fy adolygiad o drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau, deuthum i'r casgliad nad oedd unrhyw wendidau sylweddol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i mi roi barn anffafriol. Fodd bynnag, mae rhai materion y bydd angen i'r corff olynol fynd i'r afael â hwy:

   - lluniwyd fy adroddiad ar Roi Strategaeth Ar Waith ar sail y gymuned iechyd a daeth i'r casgliad bod creu Bwrdd Iechyd newydd yn gyfle i ddysgu gwersi o'r anawsterau a wynebwyd gan y sefydliadau etifeddol wrth fynd ati ar y cyd i droi blaenoriaethau strategol a rennir yn newidiadau mewn gwasanaethau a chanlyniadau diriaethol i ddinasyddion;
   - Cyfeiriodd ddatganiad sicrwydd blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ynglŷn â'r Ymddiriedolaeth at gyfyngiadau o ran sicrwydd mewn rhai systemau;
   - mae gordaliadau cyflogres yn broblem barhaus i'r Bwrdd Iechyd ac maent yn cael eu monitro'n agos gan y Pwyllgor Archwilio.

## Mewn gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben, amlygwyd nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy

39. Er mwyn cefnogi datblygiad sefydliadol y sefydliad GIG newydd, rwyf wedi paratoi adroddiadau etifeddiaeth sy'n cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau a negeseuon allweddol o waith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y cyrff a ddiddymwyd.

40. Nododd fy adroddiad etifeddiaeth i'r gymuned iechyd y materion allweddol canlynol:

- mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos bod ei drefniadau o ran llywodraethu a pherfformiad yn llywio newid strategol a'u bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol;
- mae gan y gymuned iechyd hanes o reoli arian ac asedau mewn dull cadarn ar y cyfan ond gyda'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau ariannol nas gwelwyd o'r blaen, bydd angen cyflwyno mesurau radical i fodloni targedau ariannol a gweithredol;
- mae materion yn ymwneud â gallu ac adnoddau staff a'r angen i foderneiddio'r gweithlu ymhellach wedi codi mewn sawl un o'm hadroddiadau archwilio, er i'r Ymddiriedolaeth wneud rhywfaint o gynnydd da i leihau cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch;
- nododd fy ngwaith archwilio diweddar rai gwelliannau mewn canlyniadau perfformiad ond erys heriau penodol o hyd o ran rheoli prosesau derbyn cleifion i'r Ysbyty, trosglwyddo cleifion, oedi wrth drosglwyddo gofal a gwasanaethau mamolaeth;
- bydd cydweithio ac ymgysylltu yn fwy effeithiol â sefydliadau partner, staff a dinasyddion yn hanfodol wrth fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n effeithio ar y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol;
- mae angen i'r Bwrdd Iechyd hyrwyddo arloesedd i wella gwasanaethau a chanlyniadau, gan adeiladu ar enghreifftiau presennol o arfer da.

41. Mae'r gwaith archwilio perfformiad y cyfeiriais ato mewn strategaethau archwilio blaenorol yn rhan o raglen dreigl o astudiaethau cenedlaethol a lleol. Er bod rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i gyrff priodol y GIG a ddiddymwyd, mae astudiaethau eraill yn mynd rhagddynt o hyd. Cyflwynir adroddiad ar y gwaith hwn i'r Bwrdd Iechyd newydd, a chyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar y holl waith sy'n mynd rhagddo. Bydd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer y corff yn crynhoi'r adroddiadau hyn. Mae Atodiad 4 yn crynhoi sefyllfa'r amryw brosiectau archwilio perfformiad a nodwyd gan strategaethau archwilio diweddar cyrff y GIG a ddiddymwyd.

## Rheolwyd y rhaglen bontio yng nghymuned iechyd Caerdydd a'r Fro yn dda ar y cyfan

### Rhoddwyd y ffrydiau gwaith gofynnol ar waith i sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar ffurf gysgodol yn gyntaf ac yna ar ffurf gwbl weithredol

42. Nododd y Cyfarwyddwr Pontio y trefniadau arfaethedig ar gyfer Prosiect Pontio Caerdydd a'r Fro yng nghyfarfod agoriadol y Bwrdd Pontio ar 12 Ionawr 2009. Roedd hyn yn cynnwys aelodaeth a chylch gorchwyl y Bwrdd Pontio, yn ogystal â chyflwyno'r ffrydiau gwaith canlynol:
    - Gweithlu
    - Parhad Busnes
    - Cynllunio a Phartneriaethau
    - Datblygu/Diwylliant/Ymgysylltu Sefydliadol

- Cyllid
- Materion Corfforaethol
- Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (o Fehefin 2009)

43. Chwaraeodd fy nhîm ymgysylltu ran bwysig drwy gydol y broses mewn nifer o ffyrdd. Roedd fy Mhartner Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Pontio, ac aeth aelodau eraill o'r tîm i'r cyfarfodydd ffrwd gwaith. Sefydlwyd y bwrdd cysgodol ym mis Gorffennaf 2009 a daeth y Bwrdd Iechyd yn gwbl weithredol ar 1 Hydref 2009.

## Cafodd amcanion a chanlyniadau prosiect clir eu nodi a'u cyflawni

44. Roedd canlyniadau/amcanion Prosiect Pontio Caerdydd a'r Fro fel a ganlyn:
    - gweithio gyda'r sefydliadau statudol i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd effeithiol ac effeithlon yn ystod y cyfnod pontio;
    - hwyluso'r broses bontio i'r sefydliad newydd, drwy sicrhau y caiff pob ffrwd gwaith angenrheidiol ei chyflwyno a'i rheoli er mwyn sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar ffurf gysgodol yn gyntaf ac yna ar ffurf gwbl weithredol;
    - cwblhau'r prosiect o fewn yr amserlenni a ddiffiniwyd, gan gynorthwyo'r sefydliadau statudol i gwblhau'r gwaith o drosglwyddo'r holl adnoddau, hawliau a rhwymedigaethau i'r sefydliad newydd, yn unol â'r fframwaith statudol a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad;
    - gweithredu ar fwriadau'r Gweinidog o ran y sefydliad a darparu gwasanaethau iechyd yn y gymuned iechyd fel y nodwyd yn y fframwaith statudol;
    - creu diwylliant a naws gefnogol i'r Bwrdd Iechyd newydd, yn unol â bwriadau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y GIG yng Nghymru
    - cynnal sefydlogrwydd gweithrediadau a pharhad busnes drwy gydol y broses bontio.

45. Darparodd adroddiad terfynu prosiect y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth y Cynulliad ddadansoddiad clir o gyflawniadau yn erbyn yr amcanion uchod, ac roedd hefyd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r materion i'w trafod gan y Bwrdd Iechyd newydd. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon bod y broses bontio wedi'i rheoli'n dda ac nad oedd materion sylweddol i'w nodi.

## Atodiad 1

# Casgliadau ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

| **Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol** |
|---|
| Mae'r Swyddog Atebol ar gyfer pob un o gyrff y GIG yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd corff y GIG o adnoddau, a sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd. |
| **Cyfrifoldebau'r Archwilydd** |
| Mae cyfrifoldeb arnaf o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG a gwybodaeth berthnasol arall a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym mharagraff 48 o'r Cod.<br>Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag casglu bod corff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ym mhob un o gyrff y GIG ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y cyfnod a adolygir. |
| **Casgliad** |
| Mae'r casgliadau canlynol wedi'u seilio ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o'r cyfrifon chwe mis ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 ym mhob un o gyrff y GIG, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf hefyd wedi seilio fy nghasgliadau ar unrhyw wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol i'm harchwiliad, i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan bob un o gyrff y GIG yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.<br>Yn seiliedig ar y Datganiadau o Reolaeth Fewnol, ac o ganlyniad i'r gwaith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o gyfrifon chwe mis pob un o gyrff y GIG ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ar y cyfan bod trefniadau i helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau ar waith yng nghyrff canlynol y GIG:<br>• Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro<br>• BILl Caerdydd<br>• BILl Bro Morgannwg |
| Gillian Body<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mai 2010<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ |

Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Corff wedi sefydlu dulliau o gyfathrebu â chleifion a'u cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes pwysig? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau?<br>A yw'r Corff wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Bwrdd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Bwrdd? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 3

## Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Strategaethau archwilio** | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Mai 2010. |
| Strategaethau chwe mis ar gyfer BILI Caerdydd, BILI Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | Ystyriwyd y strategaethau hyn gan y cyrff rhagflaenol yn ystod mis Medi 2009. |
| **Adroddiadau ac archwiliad o'r cyfrifon ariannol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (ISA 260)** | |
| ISA 260 Caerdydd a'r Fro | Chwefror 2010 ac wedi'i ddiweddaru Ebrill 2010. |
| ISA 260 BILI Caerdydd | Chwefror 2010. |
| ISA 260 BILI Bro Morgannwg | Chwefror 2010. |
| Adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfrifon ariannol i'r cyrff rhagflaenol | Ebrill 2010. |
| Adroddiad etifeddiaeth | Rhagfyr 2009. |
| Adroddiadau eraill ar berfformiad | Gweler Atodiad 4 |

# Atodiad 4

## Adroddiadau archwilio perfformiad

Mae'r tabl canlynol yn dangos y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â phrosiectau archwilio perfformiad, sydd wedi'u nodi yn strategaethau archwilio diweddar y cyrff rhagflaenol.

**Trefniadau cyflwyno adroddiadau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad**

| Astudiaeth | Cyflwynwyd i gorff y GIG a ddiddymwyd | Cyflwynwyd eisoes i'r bwrdd iechyd newydd | Heb ei gyflwyno eto |
|---|---|---|---|
| Ad-drefnu'r GIG | ✓ | ✓ | |
| Adroddiad etifeddiaeth (cymuned iechyd) | | ✓ | |
| Cywirdeb data rhestrau aros (Ymddiriedolaeth) | | ✓ | |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (cymuned iechyd) | | | ✓ |
| Arlwyo mewn Ysbytai (Ymddiriedolaeth) | | | ✓ |
| Gwireddu Buddiannau'r Contract Meddygon Ymgynghorol (Ymddiriedolaeth) | | | ✓ |
| Gwasanaethau Cymunedol (cymuned iechyd) | | | ✓ |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk